O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 614 (Cy. 86)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 35, Dobshill, i Gyffordd 36A, Parc Manwerthu Brychdyn, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau Dros Dro a Therfyn Cyflymder Dros Dro o 40 MYA) 2012

Gwnaed *1 Mawrth 2012*

Yn dod i rym *12 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer i Fangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mawrth 2012. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 35, Dobshill, i Gyffordd 36A, Parc Manwerthu Brychdyn, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau Dros Dro a Therfyn Cyflymder Dros Dro o 40 MYA) 2012.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr *"*cerbyd esempt*" ("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 18:30 o'r gloch ar 12 Mawrth 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol;